

# Tyfu Canolbarth Cymru Ionawr 2025

Blwyddyn Newydd Dda! Rydym yn cychwyn 2025 drwy dynnu sylw at yr ymdrechion mawr sydd ar y gweill i sefydlu'r canolbarth fel cyfrannwr o bwys i atebion ym maes ynni cynaliadwy. Y llynedd, cafodd Cynlluniau Ynni Ardal Leol y canolbarth eu lansio ac rydym yn falch iawn o daflu goleuni ar y strategaethau uchelgeisiol hynny y bwriedir iddynt arwain ein rhanbarth tuag at ddyfodol Sero Net. Mae'r cynlluniau, a ddatblygwyd ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol ac awdurdodau lleol, yn amlinellu'r dulliau mwyaf cost-effeithiol o drawsnewid ein tirwedd o ran ynni, gan roi blaenoriaeth ar yr un pryd i anghenion cymunedau.

Mae'r rhifyn hwn hefyd yn cynnwys cyfweliad dethol gan Doug Hughes, Cadeirydd Grŵp Clwstwr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer Adeiladu ac Ynni, sy'n trafod dylanwad tueddiadau penodol i'r sector ac yn trafod y bartneriaeth hollbwysig rhwng addysg a busnesau.

Cadwch mewn cysylltiad a dysgwch sut y mae Tyfu Canolbarth Cymru yn parhau i hybu arloesi, datblygu cynaliadwy a chydnerthedd economaidd yn ein cymuned. Dilynwch ni ar ein sianelau ar gyfryngau cymdeithasol i gael y wybodaeth ddiweddaraf ac i ymwneud â mentrau a phrosiectau cyffrous sy'n llywio dyfodol ein rhanbarth.

Yn helpu i dyfu cyfleoedd yn y canolbarth,

***Tîm Tyfu Canolbarth Cymru***

## Cynnwys


- Y canolbarth yn cymryd camau breision tuag at Sero Net drwy ei Gynlluniau Ynni Ardal Leol
- Sylw i Gynlluniau Ynni Ardal Leol y canolbarth
- Cyfle i gwrdd â Chadeirydd Grŵp Clwstwr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer Adeiladu ac Ynni: Doug Hughes

## Y canolbarth yn cymryd camau breision tuag at Sero Net drwy ei Gynlluniau Ynni Ardal Leol

**Gan Huw Williams, Swyddog Ynni Rhanbarthol, Tyfu Canolbarth Cymru**

Wrth i'r DU ymdrechu i gyrraedd sefyllfa sero net o ran allyriadau carbon erbyn 2050, mae Cymru yn arwain yr ymgyrch drwy gyflwyno Cynlluniau Ynni Ardal Leol arloesol. Mae'r cynlluniau hyn yn fwy na strategaethau i leihau allyriadau carbon—maent yn ymdrechion ar y cyd sy'n uno awdurdodau lleol, darparwyr ynni a rhanddeiliaid cymunedol. Y nod yw alinio mentrau ar draws y rhanbarth, gan sbarduno dull unedig o sicrhau dyfodol cynaliadwy, carbon isel.

**Llwybr unigryw ar gyfer pob cymuned**

Mae pob Cynllun Ynni Ardal Leol wedi'i deilwra i adlewyrchu anghenion a nodweddion neilltuol ei ardal, ac maent yn cynnig fframweithiau ymarferol sy'n galluogi awdurdodau lleol i symud i sefyllfa sero net mewn modd cost-effeithiol. Yn y canolbarth, mae natur wledig Ceredigion a Phowys wedi arwain at gynlluniau sy'n canolbwyntio ar ddatblygu ynni adnewyddadwy, mesurau arbed ynni, ac atebion o ran trafnidiaeth sy'n garedig i'r amgylchedd. Mae'r cynlluniau hyn yn sicrhau bod y siwrnai tuag at ddatgarboneiddio yn elwa o gryfderau penodol y rhanbarth ac yn mynd i'r afael â'i heriau unigryw.

Mae'n bosibl iawn mai Cymru fydd y wlad gyntaf yn y byd i weithredu Cynllun Ynni Ardal Leol ar gyfer pob awdurdod lleol. Y cynlluniau hyn gyda'i gilydd yw'r sylfaen ar gyfer strategaeth genedlaethol ynghylch ynni, ac maent yn cynnig camau gweithredu gyda thargedau ar gyfer cynhyrchu ynni ac ar gyfer trafnidiaeth ac effeithlonrwydd adeiladau. I'r canolbarth, mae hynny'n golygu defnyddio adnoddau adnewyddadwy a datblygu atebion sy'n gweithio ar gyfer cymunedau gwledig gwasgaredig.

**Cydweithio i sicrhau newid effeithiol**

Mae datblygu Cynlluniau Ynni Ardal Leol yn ymdrech sydd wedi golygu llawer iawn o gydweithio ac sydd wedi dod ag ystod amrywiol o randdeiliaid ynghyd, o gynghorau a rhwydweithiau ynni i grwpiau cymunedol a datblygwyr tai. Mae'r broses hon o gydweithio wedi creu sylfaen gadarn o ddealltwriaeth gyffredin ac alinio, a fydd yn allweddol wrth i'r ffocws symud o gynllunio i weithredu.

Mae'r dull unedig hwn o weithredu'n helpu i sicrhau bod ymdrechion lleol nid yn unig yn diwallu anghenion cymunedau ond hefyd yn cyfrannu i nodau rhanbarthol a chenedlaethol ehangach. Drwy weithio gyda'n gilydd, gallwn gefnogi gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni, systemau trafnidiaeth carbon isel, a datblygiadau o ran ynni adnewyddadwy ar draws y rhanbarth.

**Goresgyn heriau ac achub ar gyfleoedd**

Er bod y Cynlluniau Ynni Ardal Leol yn darparu map clir, bydd gweithredu'r cynlluniau yn gofyn am adnoddau ac ymrwymiad gan bawb dan sylw. Mae awdurdodau lleol yn chwarae rhan ganolog, ond bydd cyflawni nodau'r cynlluniau yn dibynnu ar gamau gweithredu a gymerir gan fusnesau, trigolion a datblygwyr fel ei gilydd. O uwchraddio cartrefi er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni i ddechrau defnyddio cerbydau trydan, mae'r holl ymdrechion hyn yn hanfodol i leihau allyriadau carbon.

Mae cyllid yn parhau'n ffactor hollbwysig o safbwynt gwireddu'r cynlluniau hyn. Bydd cyfuniad o fuddsoddiad gan y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn hanfodol i ddatgloi manteision economaidd ac amgylcheddol y Cynlluniau Ynni Ardal Leol. Mae'r manteision hynny'n cynnwys creu swyddi, ehangu cadwynau cyflenwi lleol, a chynyddu cyfleoedd o ran buddsoddiad gwyrdd yn y canolbarth. Bydd ymdrechion Llywodraeth Cymru i ymgorffori cynlluniau lleol mewn fframwaith cenedlaethol ehangach yn helpu i fynd i'r afael â heriau cyffredin ac i symleiddio'r modd y caiff adnoddau eu dyrannu.

**Arwain y ffordd at ddyfodol mwy gwyrdd**

Mae'r canolbarth mewn sefyllfa dda i arwain y broses o symud i economi carbon isel, diolch i'w botensial mawr ym maes ynni adnewyddadwy ac i'r modd y caiff ei gymunedau eu cynnwys yn weithredol. Drwy ganolbwyntio ar effeithlonrwydd ynni, trafnidiaeth gynaliadwy a chynhyrchu ynni adnewyddadwy, mae'r rhanbarth yn cymryd camau ystyrlon tuag at ddyfodol mwy cydnerth a chynaliadwy.

Mae'r cynlluniau hyn yn mynd y tu hwnt i leihau allyriadau carbon—maent yn cynrychioli gweledigaeth ar gyfer gwella ansawdd bywyd a chreu cyfleoedd economaidd ar draws y canolbarth. Er bod heriau i ddod, mae cynllun clir a dull unedig o weithredu'n golygu ein bod yn barod i wireddu'r broses o symud i Sero Net.

I ddysgu mwy am Gynlluniau Ynni Ardal Leol y canolbarth a sut y gallwch gynorthwyo'r rhanbarth i symud i ynni y mae llai o allyriadau carbon yn perthyn iddo, ewch i wefan Tyfu Canolbarth Cymru. Gyda'n gilydd, gallwn lunio dyfodol lle mae cynaliadwyedd a chyfleoedd yn mynd law yn llaw.

## Cynlluniau Ynni Ardal Leol

Mae Ynni Rhanbarthol yn faes a gaiff ei arwain gan Tyfu Canolbarth Cymru, sy'n chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddod â rhanddeiliaid ynghyd ar draws y rhanbarth i hwyluso'r symud i Sero Net ac sydd hefyd yn cynorthwyo'r awdurdodau lleol i arwain drwy esiampl.


Yn 2024, lansiodd Ceredigion a Phowys eu Cynlluniau Ynni Ardal Leol a oedd yn datgelu'r ffyrdd mwyaf cost-effeithiol o leihau allyriadau carbon y system ynni leol.


Cyhoeddodd holl awdurdodau lleol Cymru eu Cynlluniau Ynni Ardal Leol yn 2024. Bydd y rheini yn cael eu defnyddio ar lefel uwch i greu Cynllun Ynni Cenedlaethol i Gymru, a fydd yn mapio'r galw am ynni a'r cyflenwad ynni yn y dyfodol ar gyfer pob rhan o Gymru.

Y mis hwn, rydym yn taflu goleuni ar adroddiadau Cynlluniau Ynni Ardal Leol y canolbarth, wedi'u cyfuno â chanlyniadau ein harolwg ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch y Cynlluniau Ynni Ardal Leol. Bwriad yr arolwg oedd asesu barn pobl am y newidiadau sy'n ofynnol ar gyfer symud i ynni y mae llai o allyriadau carbon yn perthyn iddo, ac ymatebodd dros 500 o drigolion y rhanbarth iddo yn 2024.

I gael gwybodaeth fanylach am Gynlluniau Ynni Ardal Leol y canolbarth ac am yr arolwg ynghylch Cynlluniau Ynni Ardal Leol, ewch i'n gwefan: https://www.tyfucanolbarth.cymru/CYALI

## Effeithlonrwydd Ynni





I wirio a ydych yn gymwys i gael cymorth ariannol ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni, ewch i wefannau Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys:

- Ceredigion: - https://ceredigion.gov.uk/preswyliwr/tai/gwybodaeth-a-chymorth-ariannol/cynlluniau-effeithlonrwydd-ynni/
- Powys: https://cy.powys.gov.uk/article/14598/Cynllun-Arbed-Ynni-Powys-Cymru-Gynnes-ECO4-Flex?ccp=true#cookie-consent-prompt

## Gwres carbon isel





## Cynhyrchu ynni adnewyddadwy

Nodwyd bod cynhyrchu a defnyddio cymaint ag sy'n bosibl o ynni adnewyddadwy'n lleol yn flaenoriaeth allweddol i'r canolbarth. Gall defnyddio technolegau hyblyg megis cyfleusterau gwefru cerbydau trydan clyfar a batris osgoi'r angen am waith uwchraddio drud i'n rhwydwaith trydan.






## Trafnidiaeth





**Mae'r CYALl yn dangos sut y gall cynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio leihau allyriadau carbon Canolbarth Cymru.**

The LAEPs show how increasing the use of public transport, walking, and cycling, can reduce Mid Wales' carbon emissions.






**Ond mae realiti bywyd yng nghefn gwlad yn golygu bod pobl yn debygol o barhau i ddibynnu ar eu ceir, felly bydd ceir trydan yn bwysig.**

However, the realities of rural life mean that people are likely to remain reliant on their cars therefore electric cars will play a significant role.

Byddai mwyafrif y bobl a gymerodd ran yn yr arolwg yn ystyried defnyddio ceir trydan neu hybrid yn y dyfodol, ac roedd yna ddiddordeb neilltuol mewn defnyddio'r bws.




**Dyma'r 5 prif beth a fyddai'n annog pobl i newid i opsiynau trafnidiaeth carbon isel:**

1. **Mwy o argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus**
2. **Cost is o gerbydau trydan**
3. **Cost is o drafnidiaeth gyhoeddus**
4. **Mwy o argaeledd seilwaith gwefru cerbydau trydan cost isel ar lwybrau allweddol**
5. **Gwefru cerbydau trydan yn y cartref**








## Cyfle i gwrdd â Chadeirydd Grŵp Clwstwr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer Adeiladu ac Ynni






*1 - Doug yn nigwyddiad Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn y Sioe Frenhinol, 2024*

**Doug Hughes, Rheolwr Gyfarwyddwr Douglas Hughes Architects Ltd:** Y Drenewydd, Y Trallwng, Aberystwyth – Mae prif fusnes Doug, sef Hughes Architects, yn bodoli ers dros 21 o flynyddoedd ac mae wedi cwblhau dros 5,000 o adeiladau o bob siâp a maint. O’r cychwyn cyntaf, roedd cwmni Hughes Architects o’r farn bod ymgynghori â chymunedau yn un o’i setiau sgiliau craidd. Cafodd yr ymgysylltu cynnar hwn â rhanddeiliaid allweddol ei gydnabod gan Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain fel ymarfer a oedd yn batrwm i eraill.

**1. Effaith y Sector ar Economi’r Canolbarth:** Beth yw’r prif dueddiadau neu’r prif heriau sy’n effeithio ar eich sector chi yn y canolbarth ar hyn o bryd?

*Yr unig wahaniaeth sydd rhyngddynt a’r tueddiadau a’r heriau a geir ar draws y DU yw’r ffaith eu bod yn cael eu dwysáu gan ein lleoliad daearyddol yn y DU, ein ffin feddal â Lloegr lle gellir gwneud mwy o elw, a maint y rhanbarth.*

*Mae’r prif broblemau sy’n wynebu’r diwydiant yn 2025 yr un fath i bob pwrpas â’r rhai a oedd yn ei wynebu yn 2019 ac a nodwyd yn Adroddiad Farmer – sef lefelau isel o gynhyrchiant; diffyg gallu i ragweld; trefn strwythurol dameidiog; arweinyddiaeth dameidiog; elw bach; modelau prisio gwrthwynebol a bregusrwydd ariannol; model nad*

*yw'n gweithio yn iawn ar gyfer hyfforddiant, cyllid a chyflawni; maint y gweithlu a demograffeg; diffyg cydweithio; diffyg ymchwil a datblygu a buddsoddi mewn arloesi; a delwedd wael o'r diwydiant. Mae yna lawer i'w oresgyn!*

**2. Cydweithio â Darparwyr Addysg a Hyfforddiant:** Sut yr ydych yn gweithio gyda darparwyr addysg a hyfforddiant i sicrhau bod hyfforddiant ynghylch sgiliau'n cyd-fynd ag anghenion busnesau yn eich sector chi?

*Rydym wedi bod yn ymgysylltu'n gyson ac yn gynhyrchiol â cholegau sy'n darparu hyfforddiant ynghylch adeiladu yn y rhanbarth. Nid oes gan y gwaith o ddarparu hyfforddiant ynghylch ynni yn y rhanbarth unrhyw gwricwlwm neilltuol y gellir ei adnabod.*

*Yr her i'r perwyl hwn yw cyfiawnhau'r galw am gyrsiau yn y rhanbarth. Mae pellter mawr rhwng lleoliadau ym Mhowys, a heb y niferoedd gofynnol yn y trefi neu'r ardaloedd dan sylw mae'n anodd i addysgwyr gynnal cyrsiau, am resymau digon dealladwy. Mae hynny'n debyg iawn i'r problemau sy'n wynebu addysgwyr yng Ngheredigion. Rydym yn gweithio ar hynny ac mae angen i ni fod yn arloesol, oherwydd nid yw'n fwriad gennym wneud y rhanbarth yn llai!*

*Un o'n hamcanion eraill fydd gwella delwedd gyrfa ym maes adeiladu, a sicrhau bod gan bobl ifanc yr holl ffeithiau mewn da bryd cyn iddynt ddechrau dewis eu pynciau TGAU. Bydd rhan o hynny'n golygu ymgysylltu â'r blynyddoedd iau mewn ysgolion uwchradd, ac ymgysylltu'n ôl pob tebyg ag ysgolion cynradd hefyd. Y nod i'r perwyl hwn yw sicrhau bod rhieni ac athrawon gyrfaoedd yn gwybod sut beth yw gyrfa ym maes adeiladu yn 2025 a faint o foddhad a budd ariannol sy'n bosibl o ddilyn gyrfa yn y maes.*

*Mae angen hefyd i ni sicrhau ein bod yn datblygu syniadau ynghylch ffyrdd o gyfeirio'r sawl sy'n ystyried newid gyrfa at y diwydiant.*

**3. Pwysigrwydd Cyfranogiad y Grŵp Clwstwr:** Yn eich barn chi, pa mor bwysig yw llais byd busnes i lywio'r ddarpariaeth o ran addysg a hyfforddiant ar gyfer eich sector chi?

*Mae hynny'n syml. Os nad oes gennych unrhyw fewnbwn i'r cyfle hwnnw, allwch chi ddim disgwyl unrhyw allbwn. Mae pawb yr wyf wedi siarad â nhw, o addysgwyr i gontractwyr, yn rhannu'r un safbwynt ar y mater hwn, felly ceir awydd anhygoel i ddod o hyd i atebion gan y canolbarth ar gyfer problemau'r canolbarth. Mae'n wir bod cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer prentisiaethau wedi lleihau ond rydym yn edrych ar ffyrdd eraill o gael mynediad i'r diwydiant adeiladu yn y rhanbarth. Rydym wrthi'n meddwl am syniadau i ddatrys y broblem hon ac rwy'n mwynhau'r modd y mae syniadau'n cael eu cyfnewid yn agored.*

*Mae yna lawer o bethau da y mae grwpiau unigol yn eu gwneud yn barod yn y rhanbarth, ac mae yna bocedi o arfer anhygoel o dda hefyd. Ond mae angen ei gydlynu, a dyna'r rôl y gall y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ei chyflawni. Heb gyfarfodydd y Bartneriaeth, ni fyddem wedi bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd yn y rhanbarth. Ond mae angen i ni gael mwy*

*o fusnesau o gwmpas y bwrdd. Felly, os ydych yn gwybod am unrhyw fusnes sydd am ymwneud â ni, rhowch wybod i fi.*

**4. Straeon Llwyddiant a Chyfleoedd:** Allwch chi rannu eich meddyliau am y cyfleoedd yr ydych yn eu gweld i fusnesau yn y dyfodol o ganlyniad i ymgysylltu â'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol?

*Rwy'n gobeithio y gallwn fod yn ffenestr siop ar gyfer y diwydiant adeiladu ac ynni yn y canolbarth. Mae'r cyfleoedd i fusnesau sy'n ymwneud â'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn niferus ac yn esblygu.*

*Drwy ein cyfarfodydd chwarterol, rydym wedi datblygu dealltwriaeth gliriach o'r hyn y mae busnesau'n chwilio amdano i ddatblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r capasiti y mae ar y diwydiant eu hangen yn y rhanbarth er mwyn mynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â'r galw cynyddol am amgylchedd cynaliadwy o ran adeiladau ac ynni yn y rhanbarth. Mae ein cyfarfodydd yn rhoi i'r cwmnïau sy'n cymryd rhan y gallu i sicrhau bod eu pryderon yn cael eu clywed gan addysgwyr, a bod cyrsiau'n cael eu dylunio o gwmpas yr angen hwnnw.*

*Rydym hefyd yn ymgysylltu â'r prif gyrff sy'n caffael yn y rhanbarth, megis y Cynghorau Sir a'r Byrddau Iechyd, er mwyn clywed pa gyfleoedd sydd yn yr arfaeth a sut y gallwn sicrhau bod busnesau lleol ar restrau o gontractwyr cymeradwy. Yn fy nghyfarfodydd niferus â'r sawl sy'n gyfrifol am gaffael, mae yna awydd cryf i ddefnyddio doniau lleol ar brosiectau lleol yn y rhanbarth ond nid yw'r cydlynu gystal ag y dylai fod. Felly, rydym yn ymdrin â'r problemau hynny yn ein cyfarfodydd yn y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol. Rydym yn benderfynol o ddatrys y broblem hon.*



*2 - Grŵp Clwstwr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer Adeiladu ac Ynni*

Mae rhagor o wybodaeth am y Grwpiau Clwstwr ar gyfer Sectorau i'w gweld ar [wefan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol]().

## Edrych ymlaen

A oes angen i chi ddal i fyny gyda'r hyn a drafodwyd yn ein cyfarfodydd?  Dyma nodyn i'ch atgoffa o ble y gallwch gael gafael ar gofnodion y cyfarfodydd canlynol:

- Caiff yr holl gofnodion sy'n ymwneud â Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru eu cynnwys ar wefan Cyngor Sir Powys.
- Gellir gweld papurau sy'n ymwneud â Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar ein gwefan.

Gallwch weld y newyddion diweddaraf am Dyfu Canolbarth Cymru, datblygiadau am weithgarwch a sefydliadau yr ydym yn eu cefnogi trwy ddilyn ein tudalennau Linked In a Twitter:

https://twitter.com/growingmidwales

www.linkedin.com/company/growing-mid-wales

https://www.youtube.com/@TCC-GMW

Rydym yn awyddus i estyn allan i gymaint o sefydliadau a busnesau ag y bo modd ar draws Canolbarth Cymru, a gallwch chi sicrhau bod hyn yn bosibl trwy ddilyn, hoffi a rhannu ein tudalennau.

Ymwadiad:  Fel Rhanddeiliad Tyfu Canolbarth Cymru, rydych chi'n cael y negeseuon e- bost hyn er mwyn i ni allu rhannu newyddion a gwybodaeth gyda chi yn rheolaidd. Gallwch ein hysbysu os nad ydych yn dymuno cael y negeseuon e-bost hyn mwyach trwy anfon e-bost at tyfucanolbarthcymru@ceredigion.llyw.cymru.

Tyfu Canolbarth Cymru
Growing Mid Wales